Siart cyfathrebu 1

Beth ydw i'n ei gyfleu i chi?

Ar hyn o bryd Mae hyn yn disgrifio'r cyd-destun – beth sy'n digwydd yn yr amgylchedd neu beth sydd newydd ddigwydd ('y sbardun').	**Pan fydd hyn yn digwydd** Mae hyn yn disgrifio ymddygiad y plentyn – beth mae pobl eraill yn gallu ei weld neu ei glywed.	**Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn golygu** Mae hyn yn disgrifio beth rydych chi'n meddwl y mae'r plentyn yn ei feddwl neu'n ei deimlo wrth ymddwyn fel hyn.	**Mae angen i ni wneud hyn** Mae hyn yn disgrifio beth y dylai eraill ei wneud neu beidio â'i wneud mewn ymateb.
Mae'r gerddoriaeth wedi dechrau dangos ei bod hi'n amser rhoi'r gorau i'r gweithgaredd a chael cinio.	Yn parhau â'r gweithgaredd. Iaith y corff yn dangos tensiwn. Yn osgoi edrych tuag at oedolion. Yn taflu ei hun ar y llawr.	Dydw i ddim eisiau stopio. Dydw i ddim yn barod.	Rhoi rhybudd am newid a defnyddio symbolau a geiriau unigol i atgyfnerthu'r ffaith bod yn rhaid rhoi'r gorau i'r gweithgaredd.
Cyrraedd y sesiwn prynhawn – mae mam wedi gadael y lleoliad. Newid diweddar o sesiynau a.m. i p.m.	Yn taflu ei hun ar y llawr. Yn gwneud synau sy'n dangos ei fod yn cael anhawster mawr ac yn drist.	Dydw i ddim yn deall beth sy'n digwydd.	Esbonio'r disgwyliad yn glir, pa dasg neu weithgaredd chwarae sydd ar gael, defnyddio gwrthrychau cyfeirio neu Makaton a gair.

Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?
Cyn i'r gerddoriaeth ddechrau, bydd aelod o staff yn nodi bod y gweithgaredd yn gorffen gan ddefnyddio geiriau unigol a symbol gweledol 'Wedi gorffen'. Atgyfnerthu'r 'neges gerddoriaeth' trwy ddefnyddio symbol ar gyfer amser cinio, caniatáu amser prosesu cyn ailadrodd.

Siart cyfathrebu 2

Beth ydych chi'n ei gyfleu i mi?

Beth rydyn ni eisiau ei ddweud wrth y plentyn	**Sut rydyn ni'n gwneud hyn**	**Gyda help a (neu) gymorth gan**
Yma rydych chi'n disgrifio beth rydych chi eisiau ei ddweud wrth y plentyn, er enghraifft bod gweithgaredd yn dod i ben.	Yma rydych chi'n disgrifio sut mae dweud wrth y plentyn. Er enghraifft, dweud wrtho fod gweithgaredd yn dod i ben a beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf.	Mae'r elfen hon yn disgrifio'r cymhorthion cyfathrebu eraill y gallwch eu defnyddio i gefnogi dealltwriaeth y plentyn neu'r person ifanc, fel cardiau goleuadau traffig neu wrthrychau.
Mae hi'n amser cinio. Mae'n rhaid rhoi'r gorau i'r gweithgaredd.	Sicrhau bod eich wyneb ar yr un lefel â Hassan, yna sicrhau bod Hassan yn gallu gweld eich wyneb wrth i chi ddweud y gair 'cinio'. Sicrhau bod eich wyneb ar yr un lefel â Hassan, yna sicrhau bod Hassan yn gallu gweld eich wyneb wrth i chi ddweud y geiriau 'wedi gorffen'.	Dangos ei blât i Hassan. Defnyddio'r arwydd Makaton am 'wedi gorffen' wrth i chi ddweud y geiriau 'wedi gorffen'.

Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?
Llunio rhestr o arwyddion neu wrthrychau a ddefnyddir yn aml i'w rhannu rhwng y lleoliad a'r cartref.